

Sul y Cofio

Darlleniad: 1 Ioan 4: 7-21

O! Dduw, ein Tad, yr hwn a ddysgaist ni drwy dy Fab dy hun beth sy'n dda, yn iawn ac yn deg, a sut i fyw mewn heddwch gyda'n cymdogion, llanw ein calonnau a chalonnau dy bobl ym mhob man gydag ysbryd cymodlon, fel y medrwn fyw gyda'n gilydd mewn heddwch.

Cymer oddi wrthym ysbryd casineb, chwerwder, cenfigen a dialedd, a phlanna yn ein calonnau ysbryd cariad. Rho awydd ynom i fyw gyda'n gilydd mewn heddwch gan gofio a gweddio:

- am y rheiny a gollodd eu bywydau mewn dau ryfel byd;
(*Tawelwch*)

- am y teuluoedd hynny sy'n dal i hiraethu;
(*Tawelwch*)

- am y rheiny a anafwyd yn ddifrifol, ac a greithiwyd yn gorfforol ac yn feddyliol;
(*Tawelwch*)

- am y rheiny sydd ag atgofion chwerw ac a gamdriniwyd, a ddifriwyd ac a ddifenwyd ac a anrheithiwyd ac a ddiodefodd dan law y gelyn;
(*Tawelwch*)

- am y rheiny sy'n dal i ddiodef o ganlyniad i ryfel.
(*Tawelwch*)

Maddau inni eto fod yna fwy o gasineb nac o gariad rhyngom, fod mwy o gweryla nac o gymod. Edrych mewn trugaredd ar genhedloedd daear. Gwêl gyflwr ein byd heddiw. Symud o fywyd ein byd bob dim sy'n rhwygo yn hytrach na chyfannu, yn creu

gelyniaeth yn hytrach na chyfeillgarwch. Symud ymaith ddiffyg goddefgarwch, pob tuedd i ddial, a phob amharodrwydd i drafod a chytuno a siarad heddwch.

Gweddiwn am i ni gael gweld y dydd pan fydd dynion yn dysgu byw gyda'i gilydd mewn heddwch, ac yn barod i rannu yr hyn sydd ganddynt; fel y bydd y byd yn well ac yn hapusach lle nag ydyw ar hyn o bryd. Gweddiwn am y dydd pan una'r holl wledydd i frwydro yn erbyn tlodi ac angen, afiechyd a phoen a rhyfel.

Dysg ni i sylweddoli o'r newydd dy fod yn gosod cyfrifoldeb ar bob un ohonom i fyw a gweithio bob dydd dros ryddid, heddwch a chyfiawnder. Cynnal freichiau y rhai sydd yn wyneb pob gelyniaeth ac erledigaeth yn gwneuthur heddwch yn enw Tywysog Tangnefedd. Amen.

Graham Floyd